Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

Rheoli perthi/gwrychoedd - Cynllun Ffermio Cynaliadwy

– TAFLEN FFEITHIAU I GONTRACTWYR

Gofynion y mae'n rhaid i gontractwyr amaethyddol eu dilyn ar gyfer cytundebau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi crynodeb o'r prif ofynion cyfreithiol a phenodol y mae'n rhaid i gontractwyr eu dilyn wrth reoli perthi/gwrychoedd ar ran ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gallai diffyg cydymffurfio arwain at sancsiynau i'r ffermwyr, felly mae'n rhaid i gontractwyr ddilyn y rheolau hyn yn fanwl. Mae'r gofynion hyn yn seiliedig ar reolau cyfredol 2026 yn unig a gallant gael eu diweddaru, gan ddibynnu ar ddatblygiad y cynllun.

1. Rheolau amlder torri (J8.3)

- **PEIDIWCH â thorri neu docio yr un perthi/gwrychoedd mewn blynyddoedd olynol.** Ni chaniateir i chi dorri perth/gwrych ddwy flynedd yn olynol. Mae hyn oherwydd bod nifer o rywogaethau perthi/gwrychoedd pren, gan gynnwys drain gwynion, yn blodeuo yn ystod yr ail flwyddyn. Mae cadw tyfiant hŷn yn golygu bod mwy o flodau a ffrwythau ar gael i fywyd gwyllt ar y fferm.
- **Mae hyn yn berthnasol ar gyfer DWY ochr yr un berth/gwrych.** Ni allwch dorri un ochr yn y flwyddyn gyntaf a'r ochr arall yn ystod yr ail flwyddyn.
- **Gallwch dorri gordyfiant mieri** *y tu hwnt i broffil y berth/gwrych* os oes angen o ran iechyd a lles anifeiliaid.
- **Bioddiogelwch a hylendid peiriannau:** Ystyriwch lanhau peiriannau i atal lledaeniad rhywogaethau goresgynnol neu glefydau planhigion rhwng ffermydd lle mae'r risg yn uchel.

Eithriadau a ganiateir (Caniatáu torri blynyddol):

- Perthi/gwrychoedd neu goed sy'n ymestyn dros briffyrdd, ffyrdd, traciau neu lwybrau cerdded lle bo angen eu torri am resymau diogelwch.
- Torri fel rhan o waith cynnal a chadw arferol ar dir wedi'i wella.
- Gall cwmnïau cyfleustodau dorri perthi/gwrychoedd sy'n effeithio ar linellau trydan neu ffôn.
- Gellir gwneud gwaith adfer perthi/gwrychoedd (gosod neu brysgoedio a chau bylchau) ym mis Mawrth, ar yr amod nad yw'r gwaith yn tarfu'n fwriadol ar adar sy'n nythu.
- Sicrhewch fod trwyddedau cwympo cymeradwy ar waith lle bo angen cyn prysgoedio perthi/gwrychoedd. (Gwiriwch ganllawiau cwympo)
- Caniateir gwaith adfer perthi/gwrychoedd ar gyfer cystadlaethau neu ddigwyddiadau hyfforddiant hyd at 30 Ebrill, gyda chaniatâd ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ac yn unol â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

2. Cyfyngiadau yn ystod tymor nythu adar

- Dim torri na thocio rhwng 1 Mawrth a 31 Awst (oni bai bod eithriadau'n berthnasol). Mae hwn yn ofyniad o dan Y Cod i Bawb.

3. Gofynion o ran twf cynyddol

- Pob tro y bydd perth/gwrych yn cael ei docio, mae'n rhaid ei dorri i bwynt ychydig yn uwch a lletach nag o'r blaen. Mae hyn yn osgoi canolbwyntio'r ail dyfiant ar yr un uchder, sy'n gallu gwanhau strwythur y berth/gwrych dros amser.
- Anelwch at dwf cynyddol o 5cm o leiaf fesul cylch tocio.
- Unwaith y bydd y perthi/gwrychoedd yn cyrraedd 3m x 2m (neu 2m x 3m), gallwch eu cadw ar y maint hwnnw ond dim ond bob yn ail flwyddyn y gellir eu torri.
- Mewn ardaloedd arfordirol neu ucheldir agored lle mae twf yn arafach, mae'r gofyniad twf cynyddol yn dal i fod yn berthnasol, hyd yn oed os nad oes modd sicrhau twf o 5cm.




Perth/gwrych heb ei thocio ers y flwyddyn flaenorol yn darparu bwyd ar gyfer bywyd gwyllt a strwythur mwy dwys sy'n addas i'r diben.

4. Gofynion coed perthi

- Dylid cynnal neu sefydlu un goeden berth bob 50m ar gyfartaledd yn y berth/gwrych (wedi'i gyfrifo fesul parsel tir). Enghraifft: Dylai perth/gwrych 200m o hyd gynnwys o leiaf pedair coeden berth rhywle ar ei hyd. **Diogelu coed perthi:** Peidiwch â thorri na difrodi coed perthi. Nodwch ac osgowch unrhyw lasbrennau ifanc sydd wedi'u marcio i'w cadw.

Perth / gwrych fferm – Hyd o 200m (Heb ei docio)



5. Tystiolaeth a chadw cofnodion (J8.6)

Mae'n rhaid i gontractwyr gynorthwyo ffermwyr i gadw cofnodion cywir:

- Cadwch ddyddiadur gweithgarwch o bob gwaith yn ymwneud â pherthi/gwrychoedd, gan gynnwys dyddiadau torri, tocio a phlannu.
- Cadwch luniau a llythyrau/negeseuon e-bost gan yr awdurdodau neu gwmnïau cyfleustodau'n egluro pam fod angen torri'n amlach.
- Mae'n rhaid cadw cofnodion am 5 mlynedd ac mae'n rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio.

6. Cadarnhad o gydymffurfiaeth (Ffurflen Cais Sengl 2026 a dangosfwrdd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy)

Pwysigrwydd cyfathrebu rhwng y ffermwr a'r contractwr

Mae rheoli perthi/gwrychoedd yn effeithiol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dibynnu'n helaeth ar gyfathrebu clir a rhagweithiol rhwng y ffermwr a'r contractwr. Cyn dechrau ar unrhyw waith, dylai'r ddwy ochr drafod y canlynol:

- Pa berthi/gwrychoedd a dorrwyd y llynedd
- Pa wrychoedd sydd rhaid PEIDIO â'u torri eleni
- Y llinell dorri arfaethedig er mwyn sicrhau twf cynyddol
- Lleoliadau coed perthi a glasbrennau wedi'u tagio
- Unrhyw waith adfer sydd wedi'i gynllunio (gosod/prysgoedio a chau bylchau)
- Ardaloedd gyda chyfyngiadau'n ymwneud ag adar sy'n nythu ar y ddaear. Gallai hyn effeithio ar y gofyniad i sefydlu coed perthi newydd

- Eithriadau'n ymwneud â diogelwch (ffyrdd, cyfleustodau, mynediad)
- Tystiolaeth a chofnodion gofynnol

Gall sgwrs fer helpu i atal tor rheolau anfwriadol, diogelu taliadau Cynllun Ffermio Cynaliadwy'r ffermwr, a sicrhau bod y contractwyr yn cyflawni gwaith sy'n bodloni'r safonau amgylcheddol a chyfreithiol disgwyliedig fel rhan o'r cynllun.



Lleoliad coeden berth a glasbren wedi'i thagio - Coeden berth wedi'i phlannu a'i gwarchod yn briodol i hybu twf llwyddiannus a hwyluso'r gwaith o adnabod y goeden.

RHESTR WIRIO GYFLYM I'R CONTRACTWR

- ***Cadarnhau ymrwymiadau perthi/gwrychoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda'r ffermwr***
- ***Gwirio dyddiadau torri***
- ***Nodi ac osgoi difrodi coed perthi***
- ***Gosod uchder y peiriannau'n gywir***
- ***Cadw cofnod o'r holl waith a gwblhawyd***